# Dewi Sant
# Gwnewch y pethau bychain!

Mae pawb yn gwybod fod cennin pedr yn symbol o Gymru ynghyd â'r genhinen a'r ddraig. Fodd bynnag, oeddech chi'n gwybod nad yw pob rhywogaeth o gennin pedr yn frodorol i Gymru? Mewn gwirionedd, mae'r genhinen bedr frodorol yn eithaf prin! Mae'r rhan fwyaf o'r cennin pedr a welwn yn rhywogaethau ymledol sydd wedi dianc o erddi.

Beth am fynd am dro i geisio adnabod y genhinen bedr frodorol. Mae'n ffynnu mewn coetiroedd a dolydd llaith gan dyfu mewn clystyrau'n gorchuddio'r ddaear. Planhigyn byr yw e, â chwe phetal melyn golau'n amgylchynu trymped melyn euraid.



*Cennin Pedr Dinbych -y-Pysgod – brodorol i Gymru*



# Dewi Sant
# Gwnewch y pethau bychain!

Wyddech chi fod Dewi Sant, nawddsant Cymru wedi dweud wrthym ni am wneud y pethau bychain? Allwch chi wneud chwech o bethau bach i helpu natur? Gallech chi fwydo'r adar, plannu planhigion mae gwenyn yn eu caru, casglu sbwriel ac yn y blaen.

*Ceisiwch ysgrifennu chwech o bethau bach wnaethoch chi y tu fewn i betalau'r genhinen bedr isod:*

